Astudiaeth o eiriau Cymraeg a chanddynt fwy nag un ffurf luosog mewn testunau Hen Gymraeg a Chymraeg Canol Cynnar

Traethawd MPhil

Silva Nurmio

Adran y Gymraeg

Prifysgol Aberystwyth

2010

DATGANIAD

Nid yw sylwedd y gwaith hwn wedi cael ei dderbyn o'r blaen ar gyfer unrhyw radd, ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd wrth ymgeisio am unrhyw radd.

Llofnod .....

Dyddiad .....

Canlyniad fy ymchwiliadau i yw'r gwaith hwn, oni nodir yn wahanol. Cydnabyddir ffynonellau eraill mewn troednodiadau sy'n rhoi cyfeiriadau eglur. Atodir llyfryddiaeth.

Llofnod ……...

Dyddiad …….…….

Yr wyf, drwy hyn, yn rhoi caniatâd i'm gwaith, os yw'n cael ei dderbyn, fod ar gael i'w lun-gopïo ac ar gyfer benthyciadau rhwng llyfrgelloedd ac i'r teitl a'r crynodeb fod ar gael i gyrff allanol.

Llofnod .....

Dyddiad .....…...

Diolchiadau

Hoffwn ddiolch i'm cyfarwyddwyr, yr Athro Patrick Sims-Williams a Dr Rhisiart Hincks, am eu harweiniad a'u cefnogaeth barod. Carwn ddiolch i staff Adran y Gymraeg, ac yn arbennig i Dr William Mahon am fy helpu i ddysgu Lladin. Diolch i Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC) am yr ysgoloriaeth ymchwil. Diolch mawr i'm ffrindiau am eu cymorth cyson, ac yn arbennig i Dr Talat Chaudhri am ei ddiddordeb yn y pwnc ac am ei gymorth. *Suuri kiitos kotiväelle tuesta ja kannustuksesta*!

Noddwyd y traethawd hwn gan



Arts & Humanities Research Council

Crynodeb

Ceir tair rhan yn y traethawd hwn. Casglwyd pob ffurf luosog a geir yn y ffynonellau canlynol, ac fe'u rhestrir mewn tabl o 2012 o ffurfiau lluosog yn Atodiad I: glosau Hen Gymraeg a geir yn llawysgrifau'r nawfed ganrif; Llyfr Llandaf; Llyfr Du Caerfyrddin; Llyfr Aneirin; a barddoniaeth Beirdd y Tywysogion. Seilir yr astudiaeth, felly, ar destunau mewn sampl o lawysgrifau a ddyddir cyn tua 1300. Yn Rhan 1 dadansoddir enwau ac ansoddeiriau a chanddynt fwy nag un ffurf luosog yn y sampl. Sefydlir y lluosog gwreiddiol drwy gymharu ffurfiau cytras yn yr ieithoedd Celtaidd eraill, ac awgrymir geirdarddiad o'r Gelteg neu o'r Indo-Ewropeg sy'n dangos bôn y gair. Weithiau ni cheir olion clir o'r lluosog gwreiddiol yn y testunau sydd gennym, fel yn achos enwau diryw bôn-*o* ac enwau bôn-*ā* y byddai eu lluosog yn unffurf â'r unigol yn hanesyddol. Yn yr ail ran o'r traethawd trafodir pob ffurfiad lluosog sy'n ymddangos yn Rhan 1, gan gynnwys terfyniadau lluosog, affeithiad-*i*, enwau torfol, *pluralia tantum*, ac enwau a all weithiau fod yn unigol ac weithiau'n lluosog. Rhestrir pob ffurf luosog berthnasol o Ran 1, a gwahaniaethir rhwng y rhai sy'n dilyn y ffurfiadau'n hanesyddol a'r rhai a gafwyd drwy gydweddiad. Yn y modd hwn, gwelir pa derfyniadau a ledai yn aml, a pha rhai a dueddai i gael eu disodli. Yr wyf yn cynnwys geiriau benthyg yn y drafodaeth hon, a dadleuaf eu bod yn datblygu yn yr un modd ag y gwnâi'r geiriau brodorol, hynny yw, gallent ddilyn tarddiad y gair Lladin, neu gallent fabwysiadu ffurfiau lluosog newydd drwy gydweddiad.

CYNNWYS

Rhagair.....1

Rhan 1: Geiriau a chanddynt fwy nag un ffurf luosog mewn testunau Hen Gymraeg a Chymraeg Canol Cynnar.....3

Rhan 2: Ffurfiadau lluosog a geir yn Rhan 1.....80

Diweddglo.....113

Byrfoddau a llyfryddiaeth.....115

ATODIAD I : Lluosogion o destunau Hen Gymraeg a Chymraeg Canol Cynnar.....124

ATODIAD II: Tabl o *pluralia tantum* o Atodiad I.....284